WIND PROSPECT LTD

COFNODION

Prosiect:	**Fferm Wynt Tirgwynt**
Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol (TIRGm080)**
Dyddiad/Amser:	**09fed Tachwedd 2016; 15:30**
Lleoliad:	**Canolfan Gymunedol Carno, SY17 5LH**

Yn bresennol	Yn cynrychioli	Rôl
Mike Davis (MJD)	Wind Prospect Ltd (WPL)	Rheolwr Prosiect a Pheiriannydd y Perchennog
Emily Cheung (EC)	Awel Newydd Cyf	Rheolwr Prosiect y Perchennog
Sophy Fearnley-Whittingstall (SFW)	Awel Newydd Cyf	Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chymunedol
David Lloyd	Perchnogion tir Tirgwynt	
Gwyndaf Thomas	Cyngor Cymuned Carno	
Carol Davies	Cyngor Cymuned Llandysilio	
Primrose Jones	Cyngor Cymuned Llandrinio ac Ardd-lin	
Michael Williams	Cyngor Cymuned Llandrinio ac Ardd-lin	
Stella Townsend	Cyngor Cymuned Llandrinio ac Ardd-lin	
Keith Robinson	Maes Carafanau Carmel	

1. Ymddiheuriadau
   Frances Buckingham (Llandysilio)
   Phil Davies (Dwyriw)
   Nigel Bowen (Castell Caereinion)
   Kate Roberts (Llanfair Caereinion)
   Michael Connell (Carreghwfa)
   Hefin Lloyd-Davies (Jones Brothers)

2. Cyflwyniadau
   2.1 Cyflwynodd yr holl aelodau eu hunain.
3. Iechyd a Diogelwch
   3.1 Rhoddodd MJD a GT wybodaeth ddiogelwch am yr adeilad.
4. Cynnydd yr Adeiladu
   4.1 Cafodd aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol (a phob cynghorydd cymuned) eu gwahodd i ymweliad safle a gynhaliwyd cyn y cyfarfod. Aeth 17 cynghorydd, a chytunwyd eu bod wedi mwynhau'r ymweliad ac yn gwerthfawrogi'r gwaith adeiladu

a wnaed ac yn teimlo bod yr ymweliad wedi bod yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth.

4.2 Ailadroddodd EC yr hyn a welwyd ar y safle – mae adeiladu'r tyrbinau wedi ei gwblhau ac mae 5 o dyrbinau nawr yn cynhyrchu gyda'r gweddill i ddilyn erbyn diwedd mis Tachwedd. Mae'r is-orsaf yn gyflawn ac ond angen yr archwiliadau terfynol.

4.3 Mae Jones Brothers wrthi'n gwneud gwaith adfer ar safle'r fferm wynt ac ar hyd y llwybr mynediad. Mae hyn yn cynnwys plannu gwrychoedd ac ailhadu'r ddaear.

4.4 Gofynnodd CD ynghylch statws y gwaith yn y Trallwng. Atebodd MJD y cafwyd oedi ynghylch hyn oherwydd anghytuno rhwng Powys a Llywodraeth Cymru o ran sut y dylai cyffordd Jehu fod. Mae hyn wedi cael ei ddatrys bellach a gwaith i fod i gael ei wneud cyn diwedd mis Tachwedd.

4.5 Holodd CD ynghylch ailosod dodrefn stryd (yn enwedig wrth gylchfan gorsaf rheilffordd y Trallwng). Esboniodd MJD y byddai'r rhain yn cael eu rhoi yn ôl ym mis Tachwedd.

4.6 Gofynnodd CD pryd y byddai'r ceibrau (*chevrons*) newydd yn lle'r hen rai yn cael eu gosod yng nghylchfan Four Crosses. Dywedodd EC fod RES yn dal i gynnal teithiau cludo ac felly nhw sydd â'r rheolaeth dros osod y ceibrau. Nododd MJD fod amserlen cludo RES i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr. **EC i gadarnhau gyda RES y byddant yn ailosod y ceibrau**.

5. Cynllunio

5.1 Esboniodd MJD bod yna 3 chaniatâd a chytundeb adran 106 yn berthnasol i'r fferm wynt. Roedd adran 106 yn nodi gofynion gan Lywodraeth Cymru nad oeddent yn yr amodau cynllunio.

5.2 Mae amodau cynllunio ychwanegol yn cael eu rhyddhau yn unol â'r llinellau amser a roddwyd iddynt (e.e. pethau ar ôl y gwaith cludo llwythi annormal).

5.3 Gwnaed arolwg ar y llwybr cludo gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Phowys o Pant hyd at y fynedfa i'r safle i lunio rhestr o ddifrod posibl oherwydd y danfoniadau llwythi annormal i Tirgwynt.

5.4 Holodd CD a oedd y difrod i ochr y ffordd ger Pont Llanymynech wedi'i nodi. Nid oedd hyn yn uniongyrchol oherwydd y cerbydau cludo, ond defnyddwyr eraill ar y ffordd a oedd yn tynnu i'r ochr i adael i'r llwyth fynd heibio. Dywedodd MJD y dylai'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd ei weld gan ei fod wedi cael ei ddefnyddio fel amod rhyddhau. Nodwyd bod yr arolwg wedi cael ei recordio ar fideo a'i gyflwyno i'r Cynllunwyr ond efallai na fydd ar gael i'r cyhoedd oherwydd maint y ffeil. **MJD i gadarnhau gyda'r Swyddogion Priffyrdd a fynychodd yr arolwg.**

5.5 Eglurodd MJD ymhellach y byddai'r Swyddogion Priffyrdd perthnasol (Alun-Wyn Jones i Lywodraeth Cymru a Paul Wozencraft i Briffyrdd Powys) yn gwneud y penderfyniad terfynol ar unrhyw waith cywiro.

5.6 Eglurodd MJD fod y plannu gwrych ar hyd "mannau cyfyng" y llwybr (o'r man troi oddi ar yr A458 hyd at y safle) nid yn fater o ailblannu gwrychoedd a oedd wedi'u tynnu yn wreiddiol, ond rhoi gwrychoedd newydd yn lle'r hen rai, fel sy'n arferol yn yr amgylchiadau hyn.

6. Cronfa Budd Cymunedol

6.1 Rhoddodd SFW grynodeb o drefniadau'r Gronfa Budd Cymunedol – bydd cyllid Carno a Dwyriw yn cael ei ychwanegu at gronfeydd sydd eisoes wedi'u sefydlu ac mae'r gwaith o sefydlu cronfa gymunedol i ardaloedd y llwybr cludo (a elwir ar hyn o bryd yn Gronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Tirgwynt) yn awr ar y gweill, gyda'r cyfarfod cyntaf wedi digwydd ym mis Hydref, i'w ddilyn gan ail gyfarfod yn niwedd mis Tachwedd. Anfonwyd drafftiau cyntaf Cytundeb Budd Cymunedol i'r grwpiau perthnasol.

6.2 Gobeithir talu'r arian yn ystod chwarter cyntaf 2017, er y gallai hyn ddibynnu ar pryd y bydd y cronfeydd yn barod i'w dderbyn.

6.3 Bydd Cronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Tirgwynt yn fwy cymhleth ac esboniodd SFW y bu cytundeb rhwng y cymunedau perthnasol y byddai'n haws delio â chyfandaliad 5 mlynedd, gan roi mwy o hyblygrwydd a mwy o werth i nifer o gymunedau.

6.4 Gofynnodd PJ a ellid anfon dogfennau Carno i Gronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Tirgwynt edrych arnynt. Cadarnhaodd GT nad oedd ganddo unrhyw broblem â hyn. **SFW i anfon dogfennau at aelodau Cronfa'r Ymddiriedolaeth.**

6.5 Nododd GT y dylid sefydlu cronfa ymddiriedolaeth er mwyn gallu derbyn cyllid arall yn y dyfodol o wahanol ffynonellau ac i gael cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd yn ei strwythur i'w wneud yn effeithiol.

6.6 Gofynnodd DL a oedd unrhyw oblygiadau treth neu gymorth rhodd a fyddai'n gymwys i gronfeydd yr ymddiriedolaeth. Nid oedd GT yn meddwl y gallai Carno gael cymorth rhodd. **EC i wirio a chadarnhau.**

7. Dyddiad, Amser a Lleoliad y cyfarfod nesaf

7.1 Gan fod yr adeiladu wedi'i gwblhau cytunwyd nad oedd angen am gyfarfodydd grwp cyswllt cymunedol yn y dyfodol. Bydd y cyfarfodydd budd cymunedol yn bwrw ymlaen fel y bwriadwyd. Dywedodd ANC/WPL y byddent wastad yn agored i dderbyn ymholiadau, sylwadau a chwestiynau.

8. Unrhyw faterion eraill

COFNODION

8.1 Nododd CD pa mor ddiddorol a llawn gwybodaeth yr oedd yr ymweliad â'r safle wedi bod a gofynnodd a allai ymweliadau cymunedol fod yn ddigwyddiad yn y dyfodol. Dywedodd EC na fyddai problem gyda hyn ac mai dim ond mater o drefnu logisteg y peth ydoedd.

8.2 Roedd yr adborth cyffredinol ynghylch cludo'r tyrbinau yn gadarnhaol. Y broblem fwyaf oedd rhagweld pryd byddent yn mynd heibio.

8.3 Nododd CD er bod un neu ddwy fferm wynt yn iawn, eto nid oedd strwythurau priffyrdd fel arfer yn addas ar gyfer cynnydd trwm mewn llwythi anarferol.

8.4 Gofynnodd KR am yr effeithiau gweledol ar y parc carafanau ger y fferm wynt. Dywedodd MJD eu bod wedi adeiladu yn unol â'r cynllunio ac y dylai unrhyw broblemau neu gwynion gael eu hanfon at yr Awdurdod Cynllunio.

8.5 Trafodwyd y gellid ariannu unrhyw beth a fyddai'n cael ei ystyried yn codi nifer yr ymwelwyr i'r parc carafanau, ac felly o fudd i'r gymuned yn gyffredinol, drwy'r gronfa budd cymunedol (Dwyriw fyddai cyngor perthnasol y cais). Enghraifft o hyn fyddai pwynt gwefrio car trydan.

8.6 Cytunodd DL ac MJD y byddent yn barod i fynd gyda KR i weld yr effaith weledol ar y maes carafanau.

8.7 Diolchodd CD yn ffurfiol ar ran y cymunedau am y proffesiynoldeb a'r ffordd agored o weithio a gafwyd gan dîm Tirgwynt.